

# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2016

**2015/43. Presennol:** Cynghorwyr Toland (yn y gadair), Griffiths, Goodman, Hustings, Jenkins, Swanson a Thomas. Bu'r clerwr yn gweinyddu.

**44. Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Sir ap Gwynn

**45. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2015.

**46. Datganiadau o ddiddordeb:**

Cynghorydd Swanson: Ystafell Haearn/ yr eglwys; Cynghorydd Jenkins: Ffermwyr Ifainc Tal-y-bont; Cynghorydd Griffiths: yr eglwys.

**47. Materion yn codi:**

- i. Penderfynwyd ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â'r palmant, terfyn cyflymder a'r loriau sy'n defnyddio'r encilfa yng Nglandyfi. Penderfynwyd cynnal protest arall am y palmant.  
**Pwynt Gweithredu:** Clerwr i ysgrifennu at y Gweinidog.
- ii. Adroddwyd bod llwybr wedi'i glirio ar gyfer y lle chwarae. Hefyd, mae Jewson yn fodlon rhoi deunydd ar gyfer y prosiect. Bydd y Cyngor yn talu £1000 am ddeunydd. Erbyn mis Chwefror bydd modd cynnal penwythnos gwirfoddol i weithio ar y prosiect. Nodwyd bod angen rhestr o'r hyn sydd ei angen.  
**Pwynt Gweithredu:** Cynghorydd Toland i lunio rhestr o'r hyn sydd ei angen ar gyfer y prosiect.
- iii. Nodwyd ymateb bod y lôn i'r orsaf wedi'i ail-wneud gyda graean newydd ond mae'r giât ar glo o hyd. Penderfynwyd ysgrifennu at Network Rail a Mark Williams AS.  
**Pwynt Gweithredu:** Clerwr i ysgrifennu i Network Rail a Mark Williams AS.
- iv. Adroddwyd bod rhoddion o £201 wedi'u derbyn. Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn rhoi £49 tuag at y prosiect. Adroddwyd bod grŵp yng Nghlwb Bowlio Machynlleth yn fodlon rhoi £250 ychwanegol. Unwaith bydd yr arian ar gael, bydd modd gosod y diffibriliwr. Mae Cynghorydd Hustings wedi cael blwch am ddim gan Travis Perkins. Diolchwyd iddo a'r cwmni.
- v. Nodwyd bod casglu sbwriel yn parhau. Nodwyd bod yr eglwys am gadw'r banc papur er nad yw'n gwneud arian gan ei bod yn bosib y bydd pris papur yn codi eto. Penderfynwyd gofyn am fanc gwydr ychwanegol gan fod yr un presennol yn llenwi rhwng casgliadau.
- vi. Nodwyd nad oedd cynnydd parthed cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned.
- vii. Adroddwyd bod y broses o drosglwyddo perchnogaeth o'r tir o dan y gysgodfa bws wedi'i chwblhau. Penderfynwyd y bydd Cynghorydd Toland yn cysylltu â glanhawr i'w glanhau.  
**Pwynt Gweithredu:** Cynghorydd Toland i gysylltu â glanhawr ar gyfer y gysgodfa bws.
- viii. Gofynnwyd i'r Clerwr drefnu cyfarfod â Simon Williams, Tai Ceredigion, ynglŷn ag ymweld ag eiddo gwag yn y gymuned.  
**Pwynt Gweithredu:** Clerwr i gysylltu â Simon Williams.

- ix. Penderfynwyd codi'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Llangynfelyn gyda'r Gweinidogion.
- x. Penderfynwyd bod cael arwydd cymunedol yn rhy ddrud. Roedd y dyfynbris yn dangos y byddai'n costio o leiaf £900.

**48. Cyllid:**

- i. Penderfynwyd rhoi rhoddion o £50 i Advice Canolbarth Cymru a £50 i Glwb Ffermwyr Ifainc Tal-y-bont, ynghyd â £771 i'r Ystafell Haearn a £400 i'r fynwent. Nid oedd Cynghorwyr Swanson, Griffiths na Jenkins yn rhan o'r penderfyniadau parthed Clwb Ffermwyr Ifainc Tal-y-bont (Cynghorydd Jenkins), y fynwent (Cynghorwyr Griffiths a Swanson) na'r Ystafell Haearn (Cynghorydd Swanson).
- ii. Penderfynwyd sefydlu debyd uniongyrchol o £15.15 y mis ar gyfer talu wrth ennil.
- iii. Nodwyd bod y taliadau canlynol wedi'u derbyn: £19.20 + £24 (ailgylchu), £150 (CADW).
- iv. Trafodwyd y gyllideb ar gyfer 2016/17. Penderfynwyd nad oedd angen cynyddu'r archebiant eleni.
- v. Bydd yr archebiant yn parhau â'r un lefel â 2015/16, sef £3200.

**49. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

- i. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Un Llais Cymru:
  - a. Pwyllgor Ardal Ceredigion: nodwyd;
  - b. Goleufeydd 90ain Pen-blwydd y Frenhines: nodwyd
  - c. Mesurau Rheoli Newydd Arfaethedig ar gyfer y Bysgodfa Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion: nodwyd gwrthwynebiad y Cyngor.
  - d. Gwahoddiad Garddwesi Palas Buckingham: Cynghorydd Toland i weld a oes modd enwebu Cynghorydd Swanson.
  - e. Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft: nodwyd gwrthwynebiad y Cyngor.
  - f. Nodwyd Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2016.
- ii. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:
  - a. Cyfarfod Prosiect Iechyd Meddwl
- iii. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:
  - a. Clustnodi Maes priodol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol: nodwyd.
  - b. Trafodwyd ailgylchu o dan eitem 47.v.
- iv. Bydd Cynghorwyr yn arwyddo deiseb William Powell AC ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.
- v. Bydd Cynghorydd Thomas yn darllen cylchlythyr SARPA.
- vi. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Ionawr 2016)
- vii. Gohebiaeth am NRM Dyfi gan Gyfoeth Naturiol Cymru: nodwyd
- viii. Gohebiaeth am bensynau gan CAB: nodwyd
- ix. Nodwyd *The Clerk* (Ionawr 2016)
- x. Gohebiaeth gan SLCC am hyfforddiant: nodwyd.

**50. Unrhyw Fater Arall:**

- i) Nodwyd bod nifer o drigolion wedi gofyn a yw'r ysgol ceffylau newydd y mae Mr a Mrs Squires yn adeiladu ym Mhandy angen caniatâd cynllunio a bod modd i'r Clerc holi'r Cyngor Sir am hyn.

**51. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 9 Mawrth 2016**

